

# Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Dilyniant

Gorffennaf 2020



## Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Archwilio Cymru yw enw ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n ddau endid cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau archwilio ac adrodd ar gyrrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau darparu adnoddau, megis staff, er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Pan fo hynny'n berthnasol, mae testun y ddogfen hon yn nodi swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru). Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

---

Negeseuon allweddol	4
Ffeithiau allweddol	7
Argymhellion	9
<b>Prif Adroddiad</b>	
1 Y cynnydd o ran lleihau a rheoli absenoldeb o'r ystafell ddosbarth	10
2 Y cynnydd o ran cefnogi staff cyflenwi a diogelu	16
3 Y cynnydd o ran rheoli gwariant a dod o hyd i staff cyflenwi	22
<b>Atodiadau</b>	
1 Ein dulliau archwilio	35
2 Datblygiadau allweddol ers 2013	37
3 Y contract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg	39

# Negeseuon allweddol

- 1 Yn 2013, fe wnaethom edrych ar drefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon, gan weithio gydag Estyn – arolygiaeth ysgolion Cymru. At ei gilydd, cododd yr adroddiadau bryderon ynghylch rheoli absenoldeb, yr effaith ar gynnydd dysgwyr, cymorth i athrawon cyflenwi a chost cyflenwi.
- 2 Ers 2013, cynhaliwyd sawl adolygiad arall a datblygiadau ym mholisi, canllawiau a threfniadau contractio Llywodraeth Cymru. Rydym yn asesu'r sefyllfa ddiweddaraf ac effaith rhai o'r camau hyn yn yr adroddiad dilynol hwn.

## Ymateb i ymgynghoriad Archwilio Cymru, 2020

“ Gall athro cyflenwi cymwysedig, profiadol, sy'n cyflwyno gwers sydd wedi ei chynllunio'n dda sydd naill ai'n annibynnol neu'n rhan o'r gwaith y mae disgyblion yn ei wneud, fod yn fuddiol. Os dim byd arall, mae disgyblion yn dysgu y gallant gael diwrnod diddorol wrth ddysgu gydag oedolyn newydd a datblygu cadernid a hyblygrwydd. Os yw disgwyliadau cyflenwi yn isel neu os yw'r addysg a ddarperir yn wael neu ddim yn bod, mae'r ddarpariaeth gyflenwi yn niweidiol i hunan-barch, cynnydd a dysg y plant. ”

- 3 **Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gefnogi staff cyflenwi, mynd i'r afael ag achosion sylfaenol absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth, gwella trefn rheoli absenoldeb a mynd i'r afael â rhai pryderon allweddol ynghylch contractau asiantaeth. Fodd bynnag, mae bylchau mewn data yn golygu ei bod yn dal yn anodd dweud a yw rhai o'r camau hyn yn cael yr effeithiau a fwriedir.**
- 4 Mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wedi bod yn ceisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth; yn benodol, absenoldeb oherwydd salwch a gweithgareddau datblygu proffesiynol. Mewn ymateb i dystiolaeth o lwyth gwaith trwm athrawon, y mae wedi cymryd camau hefyd i leihau'r baich gweinyddol y mae rhai'n ei wynebu er nad ydym yn gwybod eto a yw llwythi gwaith wedi lleihau. Er bod rhai cynghorau wedi gweld lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn gwella, nid yw'r lefelau cyffredinol wedi gostwng ers 2013. Prin yw'r monitro neu'r adrodd a wneir o hyd o ran absenoldeb am resymau heblaw salwch.

- 5 Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gwella adnoddau a gallu athrawon cyflenwi i gael hyfforddiant. Mae hyn yn parhau i fod yn her oherwydd mai trwy gyflogaeth y daw'r gallu i gael gafael ar hyfforddiant a chymorth yn aml. Mae asiantaethau cyflenwi wedi darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau hyfforddi ar gyfer athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu. Mae adnoddau ar-lein ar y cwricwlwm newydd i Gymru ar gael i athrawon cyflenwi a all ddefnyddio Hwb, sef ei phlatfform digidol. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog y consortia addysg rhanbarthol a'r cynghorau i ddarparu hyfforddiant i athrawon cyflenwi cyn y cwricwlwm newydd ym mis Medi 2022. Anogir ysgolion i roi sylwadau perfformiad i staff cyflenwi, ond nid yw'n glir a yw hyn yn digwydd fel mater o drefn.
- 6 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau i ysgolion ar drefniadau diogelu ar gyfer staff dros dro. Yn y pen draw, fodd bynnag, yr ysgol a'r llywodraethwyr sy'n gyfrifol am gamau gwirio cyn cyflogi a goruchwyliaeth.
- 7 Yn 2017, sefydlodd Llywodraeth Cymru gynllun treialu a welodd athrawon newydd gymhwyso yn cael eu cyflogi fel gweithwyr ychwanegol i ddarparu cymorth wrth gefn ar draws 19 o glystyrau ysgolion. Adroddodd ysgolion fuddion, gan gynnwys gwell ansawdd addysgu a mwy o barhad i ddysgwyr. Roedd yr athrawon yn gallu cwblhau eu hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd costau parhaus cyflogi athrawon ychwanegol yn rhwystr rhag parhau i ysgolion pan ddaeth cyllid y cynllun treialu i ben. Parhaodd lleiafrif ohonynt i gyflogi'r athrawon. Dywedodd rhai arweinwyr ysgolion eu bod wedi newid y dull o ddarparu staff cyflenwi er mwyn dwyn rhai buddion ymlaen o'r cynllun treialu.
- 8 Yn y gorffennol, gwelsom nad oedd ysgolion a chynghorau yn monitro cyfanswm y gwariant ar drefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried o hyd mai ysgolion a chynghorau sydd yn y sefyllfa orau i wneud hyn. Rydym yn cydnabod bod anawsterau wrth gasglu gwybodaeth gynhwysfawr. Ond ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddata Cymru gyfan ar gael ynghylch cyfanswm y gwariant, sut y darperir staff cyflenwi nac effaith hynny ar ddysgwyr.
- 9 Ers 2012, bu tri contract fframwaith cenedlaethol gwahanol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg. Dros amser, mae nifer y cynghorau sy'n defnyddio'r fframwaith a'r gwariant wedi cynyddu. Mae'r contract a ddechreuodd ym mis Medi 2019 yn mynd i'r afael â llawer o'r pryderon a fynegwyd ynghylch trefniadau blaenorol. Mae'n cynnwys darpariaeth ar gyfer hyfforddiant sylfaenol, costau asiantaeth tryloyw a newidiadau i arferion cyflogi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys isafswm cyflog yn y contract i athrawon cyflenwi sy'n cyfateb i waelod prif raddfa'r athrawon. Croesawyd y cynnydd hwn mewn cyflogau gan athrawon cyflenwi a'u cynrychiolwyr, er ei fod yn debygol o gynyddu'r pwysau ar gyllidebau ysgolion.

- 10 Ataliwyd ysgolion rhwng 20 Mawrth 2020 ac 28 Mehefin 2020 o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Cafodd athrawon cyflenwi cymwys a oedd yn gweithio i asiantaethau ar y fframwaith cenedlaethol eu rhoi ar ffyrlo drwy gynllun cadw swyddi Llywodraeth y DU. Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gynghorau ac ysgolion barhau i dalu'r rhai a gyflogwyd yn uniongyrchol hyd at ddiwedd eu contractau. Nid yw effaith hirdymor yr aflonyddu hwn ar y gweithlu cyflenwi ac asiantaethau yn hysbys ar hyn o bryd.
- 11 Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y gallai darpariaeth gyflenwi i ryddhau staff i baratoi ar gyfer cyflwyniad y cwricwlwm newydd arwain at gost o £10.8 miliwn yn 2020-21. Nid ydym yn glir a oes digon o athrawon cyflenwi gweithredol ar gael i wneud hyn, yn enwedig gan ei bod yn debygol y bydd galw am staff ar gyfer y fenter 'Recriwtio, Adfer a Chodi safonau', a lefelau uwch na'r cyfartaledd o absenoldeb oherwydd salwch neu staff sy'n hunanynysu oherwydd pandemig y coronafeirws. Mae hyn yn arbennig o debygol o fod yn broblem i ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n adrodd yn aml ei bod yn anodd cyflogi athrawon cyflenwi ac i ysgolion eraill ar gyfer pynciau lle ceir prinder.



**Mae gweithwyr sy'n darparu gwasanaeth cyflenwi dros dro mewn ystafelloedd dosbarth yn ein hysgolion yn rhan hanfodol o'n system addysg. Ond effeithir ar gynnydd dysgwyr a chyllidebau ysgolion os na reolir absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth yn dda. Bu llawer o ddatblygiadau pwysig ers ein hadroddiad yn 2013, ond gallai Llywodraeth Cymru wneud rhagor i ddangos effaith y camau y mae wedi eu cymryd. Mae angen iddi ystyried hefyd a oes digon o weithwyr dros dro ar gael i helpu i reoli'r ymateb i COVID-19 ochr yn ochr â pharatoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd, yn enwedig yn y meysydd hynny y gwyddom eisoes fod prinder ynddynt.**

---

**Adrian Crompton**  
Archwilydd Cyffredinol Cymru



# Ffeithiau allweddol

## Dewisiadau sydd ar gael i ysgolion o ran trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon

### Athrawon cyflenwi

- Disgwylir iddynt addysgu dosbarth yn weithredol.
- Cânt eu cyflogi gan yr ysgol neu drwy asiantaeth.

### Goruchwylwyr cyflenwi

- Cynorthwyr addysgu lefel uwch a all ddarparu gwasanaeth cyflenwi tymor byr.
- Gellir eu cyflogi yn uniongyrchol gan yr ysgol neu drwy asiantaeth.

### Cynorthwyr addysgu cyflenwi

- Maent yn goruchwyllo dosbarth ond ni ddisgwylir iddynt addysgu'n weithredol.
- Gallai gynnwys cynorthwyr addysgu sy'n absennol neu weithwyr cymorth dysgu eraill, er enghraifft i weithio gyda disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Cyflogir y rhan fwyaf ohonynt drwy asiantaethau.

### Mae dewisiadau eraill yn cynnwys

- Pennaeth, dirprwy neu bennaeth cynorthwyol yn cyflenwi.
- Ad-drefnu amserlen neu ddosbarthiadau.
- Arbenigwyr megis cwmnïau chwaraeon, celf neu gerddoriaeth i ddarparu gweithgareddau eraill.
- Athrawon symudol sydd â gofyniad contractiol i ddarparu gwasanaeth cyflenwi.



## Y contract cenedlaethol cyfredol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg

- Mae'r contract yn rhedeg o fis Medi 2019 hyd fis Gorffennaf 2022.
- Contract fframwaith â 22 o barthau daearyddol, bob un yn cwmpasu ardal cyngor.
- Ym mis Medi 2020, roedd 25 o asiantaethau mewn o leiaf un parth daearyddol.
- Gwariodd ysgolion a chynghorau £41.4 miliwn drwy'r contract rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020.
- Roedd o leiaf 89% o'r gwariant rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020 ar athrawon cyflenwi a staff eraill yr ystafell ddosbarth.





# Argymhellion

## Argymhellion

### Sicrhau ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion

- A1 Yn rhan o'i gwaith i sicrhau ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn:
- atgyfnerthu yn ei phroses o ddatblygu a gweithredu polisi bod rheoli absenoldeb staff mewn modd effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr.
  - nodi mesurau llwyddiant tymor hwy clir er mwyn barnu'r cynnydd o ran gwella ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi.
  - gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, consortia addysg rhanbarthol ac asiantaethau i hyrwyddo'r hyfforddiant a'r adnoddau sydd ar gael i athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu, yn arbennig yn rhan o'i gwaith o baratoi'r proffesiwn addysgu ar gyfer cyflwyno gwelliannau i'r cwricwlwm o fis Medi 2022.
  - egluro a all ysgolion drefnu digon o staff cyflenwi i ryddhau staff i baratoi ar gyfer cyflwyniad y cwricwlwm newydd o fis Medi 2022, yn ogystal ag ymateb i alwadau sy'n deillio o bandemig y coronafeirws. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a phynciau lle mae prinder athrawon cyflenwi eisoes.

### Y contract fframwaith cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth

- A2 Mae fframwaith caffael cenedlaethol 2019-2022 ar gyfer staff asiantaeth yn dod â manteision i ddysgwyr ac ysgolion yn ogystal ag athrawon cyflenwi. Ond rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn:
- rhoi trefniadau monitro ar waith ar gyfer gweithredu'r contract er mwyn sicrhau bod athrawon cyflenwi, goruchwylwyr cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu yn gweithio'n unol â disgrifiad eu swyddogaethau;
  - annog ysgolion i ddefnyddio ei chontract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth er mwyn elwa ar ei safonau ansawdd a'i drefniadau diogelu; ac yn
  - monitro'r gyfradd sy'n manteisio ar ei chontract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth er mwyn gweld a yw ysgolion yn newid i ddefnyddio asiantaethau y tu hwnt i ofynion y contract.



# Y cynnydd o ran lleihau a rheoli absenoldeb o'r ystafell ddosbarth

---

01

## Y cynnydd o ran lleihau a rheoli absenoldeb o'r ystafell ddosbarth


- 1.1 Yn flaenorol fe wnaethom ganfod bod oddeutu 10% o ddosbarthiadau wedi eu cyflenwi gan rywun nad oedd yr athro dosbarth. Nid oedd ysgolion yn monitro'n rheolaidd pwy oedd yn darparu gwasanaeth cyflenwi. Y rhesymau mwyaf cyffredin dros absenoldeb o'r ystafell ddosbarth oedd salwch a datblygiad proffesiynol.
- 1.2 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion yng Nghymru gytundeb lefel gwasanaeth â'u cyngor ar gyfer cymorth adnoddau dynol a byddant yn mabwysiadu polisiâu rheoli presenoldeb y cyngor. Yn 2017, canfu Estyn fod bron pob ysgol gynradd wedi olrhain a monitro absenoldeb oherwydd salwch yn unol â'u polisi rheoli presenoldeb. Roedd hanner y penaethiaid wedi eu hyfforddi i reoli presenoldeb yn ystod y tair blynedd flaenorol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar reoli gweithlu'r ysgol yn effeithiol yn 2015: roedd y rhan fwyaf o benaethiaid yn gwybod amdanynt ond dim ond ychydig a nododd eu bod wedi eu darllen a'u rhoi ar waith.
- 1.3 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai ysgolion fonitro absenoldeb staff o'r ystafell ddosbarth a chynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau i lywodraethwyr. Canfu Estyn mai ychydig iawn o ysgolion cynradd oedd yn cofnodi pa mor aml yr oedd athrawon yn absennol o'r ystafell ddosbarth am resymau heblaw salwch. Ni wnaethom archwilio sut y mae ysgolion unigol yn cymhwyso canllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru erbyn hyn, ond nid ydym wedi clywed unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod y sefyllfa wedi newid.
- 1.4 Mae'r canllawiau'n nodi'n glir fod rheoli absenoldeb staff yn effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid adlewyrchir y pwyslais hwn yn benodol yn nogfen polisi Llywodraeth Cymru Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl.

## Bu Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â rhai o achosion sylfaenol absenoldeb o'r ystafell ddosbarth

Ar y cyfan, mae absenoldeb athrawon oherwydd salwch wedi aros yr un fath ers 2013, er bod rhai cynghorau wedi gweld gwelliant

- 1.5 Dengys ystadegau blynyddol mai 7 diwrnod oedd absenoldeb oherwydd salwch ymhlith athrawon yn 2018, yr un fath ag yn 2013 (**Arddangosyn 1**), sy'n cyfateb i gyfradd absenoldeb oherwydd salwch o 3.6%.

### Arddangosyn 1: absenoldeb oherwydd salwch – athrawon, 2013 a 2018




Sylwer: Ym mis Awst 2020, cyhoeddodd Ystadegau ar gyfer Cymru na fydd yn cyhoeddi data ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2019.

Ffynhonnell: Ystadegau ar gyfer Cymru – Absenoldeb Athrawon Oherwydd Salwch

- 1.6 Mae lefelau absenoldeb yn amrywio rhwng cynghorau: yn 2018, roedd chwe diwrnod o wahaniaeth rhwng yr uchaf a'r isaf (**Arddangosyn 2**). Er bod y cyfartaledd cyffredinol wedi aros yr un fath, mae rhai cynghorau wedi gwella: gostyngodd y cyfartaledd ddau ddiwrnod neu fwy rhwng 2015 a 2018 yng Nghonwy, Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot a Bro Morgannwg.

## Arddangosyn 2: nifer cyfartalog y diwrnodau absenoldeb oherwydd salwch fesul athro fesul cyngor, 2018



Sylwer: Ym mis Awst 2020, cyhoeddodd Ystadegau ar gyfer Cymru na fydd yn cyhoeddi data ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2019.

Ffynhonnell: Ystadegau ar gyfer Cymru – Absenoldeb Athrawon Oherwydd Salwch

### Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ceisio lleihau llwyth gwaith a biwrocratiaeth, ffactorau a all gyfrannu at absenoldeb sy'n gysylltiedig â straen

- 1.7 Nid yw ystadegau blynyddol Llywodraeth Cymru yn cynnwys achosion absenoldeb oherwydd salwch. Ond nododd llawer o ymatebwyr i'n hymgyngoriad fod straen a/neu lwyth gwaith yn ffactorau cyfrannol. Yn Arolwg o'r Gweithlu Addysg 2017, dywedodd 88% o athrawon na allent reoli eu llwyth gwaith yn ystod oriau gwaith. Dywedodd athrawon amser llawn eu bod yn gweithio 51 awr yr wythnos ar gyfartaledd.
- 1.8 Ymatebodd Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2017 drwy gyhoeddi cyllid o £1.28 miliwn (ynghyd â £600,000 gan y cynghorau dan sylw) ar gyfer prosiect treialu dros ddwy flynedd i gyflogi rheolwyr busnes ysgolion i leihau llwyth gwaith penaethiaid ac arweinwyr ysgolion. Ar yr un pryd, cyhoeddodd Estyn y [Canllaw Lleihau Baich Gwaith](#)<sup>1</sup> i athrawon a phenaethiaid.

1 Nid oeddem yn gallu dod o hyd i fersiwn Gymraeg o'r dudalen hon ar wefan Estyn.

- 1.9 Ym mis Ebrill 2019, sefydlodd Llywodraeth Cymru 'Grŵp Rheoli Llwyth Gwaith a Lleihau Biwrocratiaeth' gyda chynrychiolaeth o gynghorau, ysgolion ac undebau llafur. Ei nod oedd lleihau'r baich gweinyddol ar athrawon a phenaethiaid. Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â phedair blaenoriaeth ar unwaith:
- datblygu 'Siarter a Phecyn Cymorth Llwyth Gwaith a Llesiant' ar gyfer gweithlu'r ysgol;
  - adnewyddu, hybu a monitro'r nifer sy'n manteisio ar y 'Canllaw Baich Gwaith' gan Estyn;
  - datblygu a rhoi cyhoeddusrwydd i fodelau hyfforddi ac astudiaethau achos er mwyn annog dull gweithredu cenedlaethol; ac
  - archwilio'r gofynion data ar ysgolion o bob rhan o'r system ac asesu effaith casglu data ar eu llwyth gwaith.
- 1.10 Dywedodd y Gweinidog y byddai arolwg arall o'r gweithlu addysg yn cael ei gynnal o fewn 12 mis i gefnogi'r gwaith hwn trwy fonitro llwyth gwaith. Nid oedd yr arolwg hwn wedi ei gynnal pan ataliwyd ysgolion ym mis Mawrth 2020, er bod yr ymrwymiad i gynnal arolwg yn parhau.

### **Cyflwynodd Llywodraeth Cymru fesurau newydd gyda'r nod o leihau amser athrawon allan o'r ystafell ddosbarth**

- 1.11 Yn ogystal â cheisio lleihau'r baich gweinyddol ar athrawon, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno camau i leihau'r amser y mae athrawon yn ei dreulio allan o'r ystafell ddosbarth ar gyfer hyfforddiant neu ddatblygiad hefyd, trwy:
- annog ysgolion a chonsortia rhanbarthol i gynnal sesiynau hyfforddi gyda'r nos y tu allan i oriau ysgol;
  - annog consortia a chynghorau i gydlyn digwyddiadau hyfforddi a gwneud defnydd llawn o ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd; a
  - deddfu ar gyfer diwrnod hyfforddiant mewn swydd ychwanegol o 2019-20 am dair blynedd yn benodol, i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.
- 1.12 Mae rhai ysgolion wedi addasu eu hamserlenni, er enghraifft drwy gau ysgolion i ddisgyblion ar un prynhawn yr wythnos er mwyn cydlynu sesiynau cynllunio, paratoi ac asesu. Wedi ei sbarduno gan awydd i dorri costau yn ôl pob golwg, gallai hyn leihau'r angen am staff cyflenwi. Ni wnaethom archwilio'r effaith ar ysgolion, disgyblion na rhieni/gofalwyr.

## Mae diffyg monitro neu ymchwil yn golygu nad ydym yn gwybod o hyd sut y mae ysgolion yn cyflenwi absenoldeb

- 1.13 Argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn flaenorol y dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion fonitro pwy sy'n darparu staff cyflenwi ac ymchwilio i effeithiolrwydd gwahanol ddewisiadau. Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru yn 2015 yn nodi'r dewisiadau sydd ar gael i ysgolion o ran darparu staff cyflenwi pan fo angen. Roeddent yn nodi'n glir o dan ba amgylchiadau y gall gweithwyr cymorth dysgu weithredu fel staff cyflenwi, er enghraifft, am gyfnodau byr yn ystod absenoldebau athrawon nas cynlluniwyd wrth geisio dod o hyd i athro cymwysedig. Fe wnaethant atgyfnerthu y dylai ysgolion fonitro sut y darperir gwasanaeth cyflenwi ac adrodd ar hyn i lywodraethwyr.
- 1.14 Yn 2017, canfu Estyn mai ychydig iawn o ysgolion cynradd a oedd yn monitro pa mor effeithiol oedd staff cyflenwi o ran sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol. Heb yr wybodaeth hon, ni all llywodraethwyr, cynghorau na Llywodraeth Cymru farnu effaith staff cyflenwi ar ddysgwyr.
- 1.15 Yn ystod ein gwaith, mynegodd cyfweleion y farn bod ysgolion yn defnyddio cynorthwyyr addysgu fwyfwy i ddarparu gwasanaeth cyflenwi cyffredinol yn hytrach nag athrawon cyflenwi i addysgu. Ym mis Ionawr 2020, dywedodd y Gweinidog Addysg wrth ymchwiliad Pwyllgor Deisebau y Senedd i athrawon cyflenwi fod swyddogaeth cynorthwyydd addysgu yn glir. Gofynnodd i gynorthwyyr addysgu a'u cynrychiolwyr roi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddigwyddiadau pan ofynnir iddynt weithredu mewn ffordd sy'n torri eu swyddogaeth. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym nad oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi eu nodi pan ataliwyd ysgolion ym mis Mawrth 2020.
- 1.16 Er bod Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) yn nodi na ddylai athrawon weithredu fel staff cyflenwi yn aml, nid oes terfyn ar faint o waith cyflenwi y caiff penaethiaid neu ddirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol ei wneud. Mae cyflenwi ar gyfer athrawon yn ychwanegu at bwysau llwyth gwaith arweinwyr ysgolion. Yn 2017, canfu Estyn mai dim ond hanner yr ysgolion cynradd oedd â pholisïau penodol ar reoli absenoldeb penaethiaid ac fe wnaethant argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ar y mater hwn. Cafodd hyn ei gynnwys yng nghanllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017 a 2020 sy'n cydnabod swyddogaeth cynghorau a llywodraethwyr o ran goruchwyllo absenoldeb penaethiaid. Ni wnaethom archwilio faint o ysgolion a/neu gynghorau sydd â pholisi penodol ar waith erbyn hyn.



# Y cynnydd o ran cefnogi staff cyflenwi a diogelu

---

# 02



## Y cynnydd o ran cefnogi staff cyflenwi a diogelu

2.1 Yn 2013, gwelsom nad oedd staff cyflenwi'n cael hyfforddiant ac adnoddau digonol. Nid oeddent yn cael cymorth a gwybodaeth oddi wrth ysgolion i weithio'n effeithiol bob amser. Roedd diffyg monitro perfformiad a sylwadau i athrawon neu asiantaethau yn lleihau cyfleoedd i wella, gan fentro colli pryderon diogelu. Yn 2017, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu modelau amgen i sicrhau ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion yn **Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl**.

### Mae gallu staff cyflenwi i gael hyfforddiant a chymorth wedi gwella, ond mae bylchau yn parhau

2.2 Prin yw'r cyfleoedd i athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu gael dysg broffesiynol oherwydd bod hyn yn cael ei darparu drwy gyflogaeth yn aml. Yn 2017, canfu Estyn fod mwyafrif yr ysgolion cynradd yn gwahodd athrawon cyflenwi i ddigwyddiadau hyfforddi. Fodd bynnag, ychydig oedd yn cynnwys staff cyflenwi yng nghynllun gwella'r ysgol. Dim ond ychydig o awdurdodau lleol a drefnodd gyrsiau hyfforddi yn benodol i athrawon cyflenwi.

2.3 Cymerodd Llywodraeth Cymru gamau i'w gwneud yn haws i athrawon cyflenwi gael gafael ar hyfforddiant ac adnoddau yn 2016. Roedd hyn yn cynnwys:

- dwyn gwybodaeth a chanllawiau ynghyd ar gyfer athrawon cyflenwi yn rhan o'i deunyddiau addysg am ddim sydd ar gael ar Hwb, ei phlatform dysgu digidol.
- darparu'r cyfeiriadau e-bost sydd eu hangen ar athrawon cyflenwi er mwyn cael gafael ar offer ac adnoddau i gefnogi addysg nad ydynt ar gael yn rhwydd ar 'Hwb'. Erbyn mis Mehefin 2020, roedd 980 o gyfeiriadau e-bost wedi eu rhoi i athrawon cyflenwi.
- sefydlu Supply Teachers – Athrawon Cyflenwi, sef rhwydwaith dysgu proffesiynol sydd ar gael i athrawon cyflenwi gydag e-bost Hwb. Fodd bynnag, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym mai ychydig o athrawon cyflenwi sydd wedi defnyddio'r rhwydwaith.

2.4 Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau y gall athrawon cyflenwi gael hyfforddiant am ddim oddi wrth y consortia addysg rhanbarthol. Dywed fod rhai rhanbarthau'n talu athrawon cyflenwi i ddilyn hyfforddiant sefydlu. Nid oes gan Lywodraeth Cymru ffigurau ar y niferoedd sy'n manteisio ar hyn.

- 2.5 Mae'n ofynnol bod asiantaethau ar y fframwaith cenedlaethol yn cynnig hyfforddiant sylfaenol i athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu (**Atodiad 3**). Mae hyn yn cynnwys diogelu, codi a chario, cymorth cyntaf a rheoli ymddygiad. Cafodd y gofyniad hwn ei gynnwys yn y contract a redodd o fis Medi 2015 i fis Gorffennaf 2019. Ond mae'r nifer estynedig o asiantaethau ar y contract cyfredol yn golygu y dylai rhagor o staff cyflenwi fod yn gallu cael gafael ar hyfforddiant. Mae asiantaethau wedi cynnig amrywiaeth o hyfforddiant arall, er nad oes gennym ffigurau ynghylch nifer y staff asiantaeth sy'n manteisio ar hyn. O gofio mai hon yw blwyddyn gyntaf y contract ac y bu tarfu ar addysg ers mis Mawrth 2020, rydym yn cydnabod nad yw data ar gyfer blwyddyn academaidd 2019-20 yn debygol o fod yn nodweddiadol.
- 2.6 Canfu Arolwg o'r Gweithlu Addysg 2017 hefyd nad oedd athrawon cyflenwi'n gallu cael gafael ar ddatblygiad proffesiynol (nid oedd 42% o athrawon cyflenwi wedi cael unrhyw ddatblygiad proffesiynol yn ystod y 12 mis blaenorol o'i gymharu â 14% o athrawon). Dywedodd sawl ymateb i'n hymgyngoriad fod staff cyflenwi yn dal i fod heb y cymorth a'r wybodaeth angenrheidiol oddi wrth ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal Arolwg arall o'r Gweithlu Addysg a fyddai'n rhoi gwybodaeth fwy diweddar am y gallu i gael gafael ar ddatblygiad proffesiynol ac effaith camau gweithredu Llywodraeth Cymru.
- 2.7 Mae athrawon cyflenwi ac asiantaethau recriwtio yn datgan mai'r rhwystr mwyaf i hyfforddiant yw arian; naill ai cost digwyddiadau hyfforddi a/neu golli incwm os nad ydynt ar gael i weithio. Yn 2017, canfu Estyn, mai dim ond os ydynt ar leoliad hirdymor y bydd ysgolion cynradd yn talu am yr amser y mae athrawon cyflenwi yn ei dreulio ar hyfforddiant neu waith datblygu. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog y consortia addysg rhanbarthol i ddarparu digwyddiadau hyfforddi i athrawon cyflenwi yn ystod gwyliau ysgol, y penwythnos neu ar ôl yr ysgol. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod rhai sesiynau min nos wedi eu cynnal, ond nid ydym yn gwybod faint o staff cyflenwi oedd yn bresennol.

## **Bydd angen hyfforddiant ar athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu i gefnogi'r cwricwlwm newydd**

- 2.8 Ym mis Medi 2017, amlinellodd Llywodraeth Cymru eu cynllun gweithredu ar gyfer gwella addysg, gan gynnwys cwricwlwm newydd. Mae tystiolaeth gan ysgolion sy'n arloesi yn y cwricwlwm yn awgrymu bod angen dull newydd o addysgu. Er mwyn cefnogi cynnydd dysgwyr, bydd angen i staff cyflenwi ddeall y dull pan fydd y broses o'i gyflwyno yn dechrau ym mis Medi 2022. Hefyd, mae'n rhaid iddynt fod yn barod i weithio mewn ysgolion sy'n cynnig cwricwla lleol mwy gwahaniaethol, elfen arall o'r diwygio.

2.9 Mae Rhaglen Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm Cymru a lansiwyd gan y consortia rhanbarthol yn rhymor y gwanwyn 2020 yn cynnwys adnoddau ar-lein rhyngweithiol sydd ar gael i bob ymarferydd addysgol, gan gynnwys staff cyflenwi sydd wedi cofrestru ar gyfer cyfeiriad e-bost i gael mynediad at Hwb. Dros amser mae rhagor o ddeunyddiau yn cael eu gwneud yn ddigidol, gan gynnwys dysgu proffesiynol ac astudiaethau achosion ynghylch sut y mae athrawon ac ysgolion yn ymateb i heriau'r coronafeirws. Adroddodd y Gweinidog Addysg i'r Senedd ym mis Tachwedd 2018 y byddai gofyn i'r consortia addysg rhanbarthol fonitro faint o hyfforddiant sydd ar gael i athrawon cyflenwi a'r nifer ohonynt sy'n manteisio arno. Dywedodd y byddai gan ysgolion hyblygrwydd i gynnwys athrawon cyflenwi mewn hyfforddiant proffesiynol i staff. Nid yw Memorandwm Esboniadol Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2020 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020 yn cynnwys rhagor o fanylion.

## **Roedd cynllun treialu modelau cyflogi Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhai athrawon newydd gymhwyso i gyflawni safonau proffesiynol, ond ar gost i ysgolion**

- 2.10 Ers 2003, mae'n rhaid i athrawon newydd gymhwyso ymgymryd â hyfforddiant sefydlu statudol er mwyn cyflawni'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Gallant gyfrif sesiynau cyflenwi tuag at y gofyniad, ond mae'n anodd cael yr ystod lawn o brofiadau drwy wneud gwaith cyflenwi (er enghraifft, goruchwyllo ymweliadau neu gynllunio gwersi). Yn 2019, adroddodd Cyngor y Gweithlu Addysg mai dim ond 3.5% o'r athrawon newydd gymhwyso a oedd wedi cyflawni'r safonau ers 2012 a wnaeth hynny drwy fod yn athro cyflenwi yn unig.
- 2.11 Yn 2017, gwahoddodd Llywodraeth Cymru gynigion i gymryd rhan mewn prosiectau treialu lle cafodd athrawon ychwanegol eu cyflogi yn benodol er mwyn cyflenwi. Cyfyngodd Llywodraeth Cymru y cynlluniau treialu i gyflogi athrawon newydd gymhwyso yn unig, er mwyn rhoi mwy o gyfle iddynt gwblhau eu hyfforddiant. Er bod 55 o'r 56 o unigolion a gyflogwyd wedi cyflawni'r safonau proffesiynol yn ystod y prosiectau treialu, roedd goblygiadau i ysgolion yn sgil cyflogi athrawon newydd gymhwyso; er enghraifft, nid oeddent ar gael i gyflenwi bob amser oherwydd eu bod yn gwneud gwaith arall er mwyn cwblhau eu hyfforddiant sefydlu. Byddai costau wedi cynyddu o gymharu â chyflogi athrawon cofrestredig oherwydd bod angen rhagor o oruchwyliaeth ar athrawon newydd gymhwyso ac oherwydd nad oes ganddynt amserlen lawn.
- 2.12 Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid grant i ysgolion er mwyn cefnogi dysgwyr y mae pandemig y coronafeirws wedi tarfu ar eu haddysg. Mae gan ysgolion ryddid i benderfynu sut i gefnogi disgyblion gan gynnwys cyflogi athrawon ychwanegol a gweithwyr cymorth dysgu. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ysgolion yn dysgu o brofiad y cynlluniau treialu cynharach, er enghraifft i osgoi'r anawsterau yr oedd rhai clystyrau'n eu cael wrth gyflogi staff ar draws sawl ysgol.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar ddiogelu i staff dros dro, ond ysgolion sy'n gyfrifol am gamau gwirio cyn cyflogi a gwybodaeth ddiogelu

- 2.13 Canfu ein hadroddiad blaenorol nad oedd pob ysgol yn sicrhau bod gweithdrefnau diogelu ar waith ar gyfer staff cyflenwi. Yn 2015, darparodd canllawiau diogelu Llywodraeth Cymru gyngor ar ddyletswyddau cyflogwyr mewn cyd-destun cyflenwi. Roedd ei chanllawiau ar reoli presenoldeb y gweithlu'n ei gwneud yn glir y dylai ysgolion gynnal yr un gwiriadau<sup>2</sup> ar gyfer staff cyflenwi ag ar gyfer cyflogion parhaol.
- 2.14 Mae'n anghyfreithlon i ysgolion gyflogi unrhyw un i weithio fel athro neu weithiwr cymorth dysgu os nad ydyw wedi cofrestru yn y categori hwnnw gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Er mwyn hwyluso gwiriadau cyn cyflogi, mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn sicrhau bod eu cofrestrau ar gael i ysgolion, cynghorau a'r 55 o asiantaethau sy'n gweithredu yng Nghymru. Dywedodd wrthym ei fod yn ymwybodol o adegau pan fo asiantaethau wedi lleoli staff heb wirio eu statws cofrestru. Er nad yw methu â gwirio'r gofrestr yn dor cyfraith, mae lleoli rhywun yn athro neu'n weithiwr cymorth dysgu mewn ysgol heb i'r unigolyn hwnnw fod wedi cofrestru yn dor cyfraith. Ers 2012, mae contractau cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth wedi ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau gynnal gwiriadau cyn cyflogi a darparu hyfforddiant diogelu cyffredinol. Ers mis Medi 2019, mae nifer cynyddol yr asiantaethau ar y fframwaith yn golygu bod y gofyniad hwn yn berthnasol yn ehangach.
- 2.15 Yn y pen draw, mae ysgolion yn gyfrifol am sicrhau bod staff cyflenwi wedi bod trwy'r gwiriadau cywir cyn iddynt ddechrau gweithio ac am gofnodi tystiolaeth o hyn. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi nad yw'n ddigon i'r ysgol ddibynnu ar asiantaeth neu awdurdod lleol i wneud hyn. Mae'n rhaid iddi ddarparu gwybodaeth am weithdrefnau diogelu mewnol yr ysgol i staff cyflenwi hefyd. Yn 2017, canfu Estyn nad yw arweinwyr ysgol mewn ychydig o ysgolion yn sicrhau bod y gwiriadau hyn yn cael eu gwneud cyn i staff dros dro ddechrau gweithio. Adroddwyd bod gormod o ysgolion a oedd yn methu â rhoi gwybodaeth bwysig am bolisiau diogelu'r ysgol i athrawon cyflenwi newydd. Cawsom rywfaint o dystiolaeth yn awgrymu nad yw rhai ysgolion a/neu asiantaethau yn cyflawni gwiriadau cyn cyflogi priodol bob amser, ond nid ydym yn gwybod a yw hyn yn gyffredin. Ni chawsom unrhyw adroddiadau am ddigwyddiadau penodol.

---

2 Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau bod unrhyw staff a gyflogir i weithio gyda phlant wedi'u cofrestru'n gywir gyda Chyngor y Gweithlu Addysg a bod ganddynt wiriad manwl cyffredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

## **Anogir ysgolion i roi sylwadau perfformiad i staff cyflenwi, ond nid yw'n glir a yw hyn yn digwydd fel mater o drefn**

- 2.16 Yn flaenorol, gwelsom na chaiff athrawon cyflenwi a gyflogir am lai na thymor sylwadau am eu perfformiad yn am<sup>3</sup>. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n nodi ei bod yn arfer da dewis uwch aelod o'r staff i roi sylwadau adeiladol i'r unigolyn ac unrhyw asiantaeth gyflogi berthnasol. Dylai'r ysgol gadw copi ysgrifenedig o'r sylwadau.
- 2.17 Yn 2017, canfu Estyn fod y rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn darparu sylwadau i asiantaethau am berfformiad athrawon cyflenwi. Ychydig iawn oedd yn rhoi sylwadau i'r athrawon cyflenwi eu hunain neu'n cynnal adolygiad rheoli perfformiad ffurfiol, oni bai y cyflogwyd yr athro cyflenwi am fwy na thymor. Canfu Arolwg o'r Gweithlu Addysg 2017 mai dim ond 21% o athrawon cyflenwi (o'i chymharu â 73% o athrawon cyflenwi parhaol) a 24% o weithwyr cymorth dysgu cyflenwi (o'i chymharu â 33% o weithwyr cymorth dysgu parhaol) oedd wedi eu harsylwi a chael sylwadau yn ystod y 12 mis blaenorol. Gallai Arolwg o'r Gweithlu Addysg yn y dyfodol ddarparu tystiolaeth o unrhyw welliant.

---

3 Mae athro cyflenwi a gyflogir mewn ysgol am fwy nag un tymor yn ddarostyngedig i'r trefniadau rheoli perfformiad cenedlaethol ar gyfer athrawon.



**Y cynnydd o ran rheoli  
gwariant a dod o  
hyd i staff cyflenwi**

---

**03**

## Y cynnydd o ran rheoli gwariant a dod o hyd i staff cyflenwi

- 3.1 Yn 2013, gwelsom nad oedd ysgolion, awdurdodau lleol na Llywodraeth Cymru yn monitro'r gost lawn o ddarparu gwasanaethau cyflenwi. Fe wnaethom ganfod hefyd fod prinder darpariaeth gyflenwi ar gyfer rhai pynciau ac ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg.

## Ceir diffyg data Cymru gyfan o hyd am gost lawn darparu staff cyflenwi i lywio'r gwaith o gynllunio cyllidebau a dyfarniadau gwerth am arian

- 3.2 Yn 2013, argymhellodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd y dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r gwariant ar staff llanw. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor; nododd eu hymateb eu bod yn credu mai ysgolion a chynghorau oedd yn y sefyllfa orau i gasglu gwybodaeth.
- 3.3 Yn 2016-17, tynnodd adroddiad y Tasglu Gweinidogol sylw unwaith eto at y diffyg data ynglŷn â gwariant, gan argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion ac asiantaethau cyflenwi i ddadansoddi'r gost lawn o addysg gyflenwi. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn o hyd mai ysgolion a/neu gynghorau sy'n gallu gwneud y dadansoddiad hwn orau.
- 3.4 Rydym yn cydnabod bod anawsterau wrth gasglu gwybodaeth gynhwysfawr. Ond ar hyn o bryd, nid oes data Cymru gyfan ar gael ynghylch cyfanswm y gwariant, sut y darperir gwasanaeth cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon nac effaith hynny ar ddysgwyr. Er mwyn deall cost lawn darparu staff cyflenwi, byddai angen i'r data gynnwys staff cyflenwi a ddarperir drwy asiantaethau, athrawon a gweithwyr cymorth dysgu a gyflogir yn uniongyrchol gan ysgolion dros dro a goruchwylwyr ac athrawon cyflenwi a gyflogir yn barhaol sy'n cyflawni gwaith cyflenwi. Hefyd, byddai angen ystyried yswiriant absenoldeb neu drefniadau lleol i helpu ysgolion i reoli costau staff cyflenwi. Byddai gwell data yn helpu Llywodraeth Cymru, cynghorau ac ysgolion i gynllunio eu cyllidebau ac yn gwella eu dealltwriaeth o ba un a yw trefniadau'n darparu gwerth am arian ai peidio.

## Mae fframwaith cenedlaethol 2019 ar gyfer staff asiantaeth yn mynd i'r afael â llawer o'r pryderon a fynegwyd ynghylch trefniadau blaenorol, ond ceir risgiau o hyd

### Cydweithiodd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â llawer o'r pryderon a fynegwyd yn flaenorol ynghylch asiantaethau cyflenwi


- 3.5 Yn 2013, fe wnaethom amlygu bod y cyfle wedi ei golli i ddylanwadu ar drefniadau a hyfforddiant athrawon cyflenwi yn ystod y broses dendro am gontract fframwaith cenedlaethol 2012 ar gyfer staff asiantaeth. Arweiniodd Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Llywodraeth Cymru y broses dendro ar gyfer y contract dilynol. Gosodwyd rhagor o ofynion ar gynigwyr o ran trefniadau diogelu a hyfforddiant sylfaenol.
- 3.6 Roedd tendro am gontract cenedlaethol diweddaraf 2019-2022 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ymateb i argymhellion 2017 y Tasglu Gweinidogol ac i bryderon ynghylch cyflogau ac amodau athrawon cyflenwi gan grwpiau lobiö, undebau ac eraill. Gweithiodd swyddogion y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar y cyd â rhwydwaith o staff caffael ac adnoddau dynol cynghorau i ddeall gofynion cynghorau ac i wneud gwelliannau i'r contract.
- 3.7 Mae **Arddangosyn 8** yn **Atodiad 3** yn rhoi rhagor o fanylion, ond yn gyffredinol, rydym yn dod i'r casgliad bod telerau'r contract diweddaraf wedi ymateb i'r pryderon blaenorol:
- mae gan y fframwaith 22 o barthau daearyddol, bob un yn cwmpasu ardal awdurdod lleol, sy'n rhoi dewis o asiantaethau sy'n bodloni'r gofynion a osodir gan y contract i ysgolion;
  - mae gofynion a gynlluniwyd i wella ansawdd yn berthnasol i'r holl asiantaethau ar y fframwaith, gan gynnwys:
    - hyfforddiant sylfaenol i staff asiantaeth;
    - gwiriadau cyn cyflogi; a
    - sylwadau i staff cyflenwi oddi wrth asiantaethau.
  - mae costau asiantaethau yn dryloyw i ysgolion a chynghorau;
  - pan ddefnyddir cwmnïau ymbarél, mae'n rhaid iddynt fod wedi eu cofrestru yn y DU;
  - mae staff asiantaeth mewn lleoliadau sy'n para dros 12 wythnos yn cael cyflog uwch yn unol â Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010; ac
  - mae cyfradd isafswm cyflog wedi'i phennu i athrawon cyflenwi a gyflogir drwy asiantaeth sy'n cyfateb i waelod prif raddfa gyflog athrawon ysgol (**paragraffau 3.10-3.19**).



**Mae gwariant ar staff asiantaeth drwy'r contract newydd wedi cynyddu, ond nid ydym yn gwybod o'r data sydd ar gael a yw hyn yn cynrychioli newid mewn gwariant cyffredinol**

3.8 Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn monitro gwariant trwy'r contract cenedlaethol<sup>4</sup>. Rhwng 2015-16 a 2018-19 (blynyddoedd ariannol), cynyddodd gwariant yn rhannol oherwydd bod ysgolion mewn mwy o gynghorau yn defnyddio'r contract blaenorol. Erbyn 2018-19, roedd ysgolion mewn 20 o gynghorau yn defnyddio'r contract yn 2018-19 o'u cymharu ag wyth yn 2015-16 (**Arddangosyn 6, Atodiad 3**).

**Arddangosyn 3: gwariant drwy'r contract cenedlaethol ar staff asiantaeth mewn addysg, o fis Medi hyd fis Rhagfyr 2018 a 2019**



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (heb ei gyhoeddi)

4 Mae'r trefniadau rheoli ysgolion yn lleol sy'n deillio o Ddeddf Addysg 1988 yn golygu mai ysgolion sy'n gyfrifol am benderfyniadau staffio; nid oes rhaid iddynt ddefnyddio'r contract cenedlaethol i gaffael staff asiantaeth. Ym mis Medi 2019, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at awdurdodau lleol ac ysgolion yn hyrwyddo buddion defnyddio asiantaethau sydd ar gcontract y fframwaith.

- 3.9 Rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020, gwariodd ysgolion a chynghorau £41.4 miliwn drwy'r contract diweddaraf. Roedd hyn yn cynnwys gwariant ar staff nad ydynt yn yr ystafell ddosbarth (megis gofalwyr asiantaeth, staff gweinyddol ac arlwyo)<sup>5</sup>. Ar ôl gweithredu'r contract newydd am y pedwar mis cyntaf, roedd cyfanswm y gwariant deirgwaith yr hyn ar gyfer y cyfnod cyfatebol yn 2018 (**Arddangosyn 3**). Roedd hyn i'w ddisgwyl oherwydd bod y contract yn cynnwys rhagor o asiantaethau: mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn amcangyfrif bod asiantaethau sydd ar y fframwaith bellach wedi cyfrif am oddeutu 90% o'r gwariant asiantaeth yn flaenorol. Ni wyddom a yw'r fframwaith yn annog ysgolion neu gynghorau i newid eu defnydd o asiantaethau o'r data sydd ar gael. Mae'r asiantaethau'n amrywio'n sylweddol o ran maint, nifer y parthau daearyddol y maent yn gweithredu ynddynt a chategorïau'r staff a gynigir ganddynt; mae data a welwyd gan Archwilio Cymru yn awgrymu, ym mis Mawrth 2020, fod 62% o'r gwariant wedi bod gyda thair asiantaeth.

### **Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfradd isafswm cyflog ar y fframwaith cenedlaethol sy'n cyfateb i'r isafswm statudol ar gyfer athrawon cymwysedig, er bod hyn yn debygol o roi pwysau ar gyllidebau ysgolion**

- 3.10 Hyd at fis Medi 2019, nid oedd cyflog wedi'i argymhell ar gyfer athrawon cyflenwi a gyflogir drwy asiantaethau: dywedodd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wrthym mai oddeutu £95 oedd cyflog dyddiol cyfartalog athrawon cyflenwi a gyflogwyd trwy asiantaethau yn 2019 (cyn didyniadau). Awgrymodd adroddiad Tasglu Gweinidogol 2017 y dylai athrawon cyflenwi allu disgwyl cyflog ac amodau sy'n briodol i'w statws athro cymwysedig.
- 3.11 Roedd contract fframwaith 2019 yn cynnwys gofyniad bod cyflogau athrawon asiantaeth gyfwerth ag isafswm graddfa gyflog y prif athrawon: sy'n cyfateb i £127.72 y diwrnod (cyn didyniadau) ym mis Medi 2019. Caiff ysgolion dalu mwy i athrawon cyflenwi a gyflogir drwy asiantaethau – i gael sgiliau neu brofiad, er enghraifft – ond nid yw data'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn dangos pa mor aml y mae hyn wedi digwydd. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn dymuno gweld athrawon cyflenwi a gyflogir drwy asiantaethau yn derbyn cyflog cydradd ag athrawon cyflenwi a gyflogir yn uniongyrchol. Er bod cyflogau athrawon cyflenwi a gyflogir gan asiantaethau sydd ar y fframwaith wedi cynyddu, ni wyddom a yw'r nod hwn wedi ei gyflawni'n llwyr oherwydd nad ydym yn gwybod a yw athrawon cyflenwi a gyflogir yn uniongyrchol gan ysgolion yn cael eu talu yn unol â'u profiad a'u safle ar raddfa gyflog athrawon.

---


5 Rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020, gwariodd ysgolion a chynghorau £4.08 miliwn (11% o'r cyfanswm) ar staff asiantaeth nad ydynt yn yr ystafell ddosbarth drwy'r fframwaith. Nid yw data'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer mis Medi 2019 wedi eu rhannu yn ôl categorïau staff (**Arddangosyn 7, Atodiad 3**).

- 3.12 Nid yw'r contract yn cynnwys isafswm cyflog ar gyfer categorïau eraill o staff asiantaeth, yn rhannol oherwydd nad oes graddfa gyflog genedlaethol ar gyfer y staff hyn. Awgrymodd ein harchwiliad ein hunain o hysbysebion ym mis Medi 2020 mai £60-70 y diwrnod (cyn didyniadau) oedd y cyflog ledled Cymru ar gyfer cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion a gyflogwyd drwy asiantaeth.
- 3.13 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'n hymgyngoriad yn cefnogi'r taliadau ar gyfer athrawon cyflenwi a gyflogwyd gan asiantaeth ar gontract y fframwaith. Roedd cynrychiolwyr y grŵp 'Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi' sy'n cefnogi ac yn ymgyrchu ar ran athrawon cyflenwi yng Nghymru yn eu croesawu, er nad ydynt yn cyrraedd eu hawydd i gael eu talu yn unol â'u profiad ac i gael defnyddio cynllun pensiwn athrawon.
- 3.14 Ni wnaeth Llywodraeth Cymru asesu'r effaith debygol o gynyddu cyflogau athrawon cyflenwi a gyflogir drwy asiantaethau ar gyllidebau ysgolion cyn gwahodd cynigion am y contract. Deallwn eu bod wedi tybio y gallai ffioedd asiantaeth is dalu am unrhyw gostau cyflog uwch gyda rhagor o dryloywder o ran ffioedd yn ei gwneud yn haws i ysgolion ddewis pa asiantaeth i'w defnyddio. Fodd bynnag, gan nad oedd lefel ffioedd asiantaeth ar gyfer asiantaethau heblaw'r cyflenwr a ffefrir o dan gontract cenedlaethol 2015-2019 yn hysbys, ni wyddom sut y dangoswyd y dybiaeth hon. Ni ddarparwyd unrhyw gyllid newydd i dalu costau ychwanegol. Disgwyliwn y gallai costau athrawon cyflenwi a gyflogir drwy'r fframwaith godi i ysgolion ym mlwyddyn academaidd 2020-21 o ganlyniad i ddyfarniad cyflog athrawon 2020-21<sup>6</sup>.
- 3.15 Rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020, talodd ysgolion £169 y diwrnod am athro cyflenwi ar gyfartaledd, sy'n llawer mwy na'r tâl am oruchwyliwr cyflenwi neu gynorthwywyr addysgu (**Arddangosyn 4**). Mae'r swm hwn yn cynnwys cyflog, costau cyflogaeth a ffioedd asiantaeth.

---

6 Bydd yr isafswm cyflog ar brif raddfa gyflog yr athrawon yn cynyddu 8.48% o ganlyniad i ddyfarniad cyflog 2020-21 Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynyddu cyflog athrawon cyflenwi a gyflogir gan asiantaethau ar y fframwaith o £127.72 i £138.55 y diwrnod am gost o ryw £180 y diwrnod i ysgolion.

**Arddangosyn 4: costau dyddiol cyfartalog i ysgolion am staff asiantaeth y maent wedi'u caffael drwy'r contract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg, Hydref 2019 – Mawrth 2020**



Sylwer: Nid yw data'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer mis Medi 2019 yn dangos categorïau staff.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, Medi 2020.

3.16 Yn 2017, canfu Estyn fod rhai penaethiaid cynradd yn pryderu ynghylch fforddiadwyedd darpariaeth gyflenwi. Yn aml, byddent yn dewis yr opsiwn rhataf oedd ar gael wrth drefnu darpariaeth gyflenwi. Nid ydym yn credu bod y sefyllfa hon yn debygol o fod wedi gwella oherwydd bod cyllidebau llawer o ysgolion o dan bwysau ar hyn o bryd. Yn 2018-19 – y flwyddyn ddiwethaf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer – roedd gan 39% o ysgolion uwchradd a 12% o ysgolion cynradd gronfeydd wrth gefn negyddol. Gwelwn risg bosibl y gallai costau mor wahanol ar gyfer mathau o staff arwain ysgolion i wneud penderfyniadau sy'n tanseilio buddion contract 2019-2022 yn y pen draw, sef:

- gallai ysgolion ddefnyddio cynorthwyrwyr addysgu lefel uwch i gyflenwi yn y tymor byr yn hytrach nag athrawon cyflenwi; a/neu
- gallai ysgolion ddefnyddio asiantaethau y tu allan i'r contract cenedlaethol er mwyn lleihau costau.

- 3.17 Clywsom dystiolaeth anecdotaidd o sawl ffynhonnell fod ysgolion yn cyflogi mwy o gynorthwyr addysgu lefel uwch a goruchwylwyr cyflenwi o dan y trefniadau newydd oherwydd bod y gwahaniaeth o ran cost yn fwy nag o'r blaen. Er na ddylai gweithwyr cymorth dysgu weithio y tu allan i ddisgrifiad eu swyddogaeth trwy addysgu, mae gan benaethiaid rywfaint o hyblygrwydd o ran sut y maent yn defnyddio cynorthwyr addysgu lefel uwch i ymdrin ag absenoldeb 'tymor byr'<sup>7</sup>. Nid yw'r data sydd ar gael gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar hyn o bryd yn dangos a yw ysgolion yn cyflogi goruchwylwyr cyflenwi sy'n gynorthwyr addysgu lefel uwch fwyfwy yn hytrach nag athrawon cyflenwi.
- 3.18 Roedd dystiolaeth o bedair asiantaeth recriwtio i Bwyllgor Deisebau y Senedd ym mis Tachwedd 2019 yn awgrymu bod rhai ysgolion yn cyflogi athrawon cyflenwi o asiantaethau ar y fframwaith sy'n cael llai o gyflog na'r gyfradd isaf. Adleisiwyd yr honiad hwn i ni yn fwy diweddar mewn dystiolaeth anecdotaidd. Ym mis Ionawr 2020, dywedodd y Gweinidog Addysg wrth Bwyllgor Deisebau y Senedd fod yr asiantaeth fwyaf sy'n gweithredu yng Nghymru wedi adrodd bod 88% o'u hathrawon cyflenwi yn cael y gyfradd isaf neu fwy. Dywed Llywodraeth Cymru, erbyn mis Mawrth 2020, fod 94% o athrawon cyflenwi wedi'u cyflogi ar gyfradd yr isafswm cyflog.
- 3.19 O'r cychwyn, dywedodd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wrth asiantaethau ar y fframwaith eu bod o'r farn bod talu llai na chyfradd yr isafswm cyflog yn annymunol. Dywedodd swyddogion wrthym y byddant yn codi achosion unigol gyda'r asiantaethau dan sylw a gyda'r cyngor pan fyddant yn ymwybodol bod hyn yn digwydd. Yn y pen draw, gallai'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol dynnu asiantaethau o'r fframwaith os ydynt yn talu llai na'r isafswm i athrawon cyflenwi dro ar ôl tro. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn ymwybodol y gallai asiantaethau sydd ar y fframwaith fod ar eu colled i'r rhai sydd y tu allan i'r fframwaith sy'n gallu lleihau costau drwy leihau cyflogau yn ogystal â ffioedd os yw ysgolion yn mynnu talu llai am staff cyflenwi drwy asiantaeth.

---

7 Yn ein gwaith blaenorol, gwelsom fod hyn yn cael ei ddehongli'n wahanol gan ysgolion. Yn ein sampl o 20 o ysgolion, roedd yr amser a gyflenwyd gan gynorthwyydd addysgu lefel uwch cyn cyflogi athro cyflenwi yn amrywio rhwng un diwrnod a phythefnos.

## **Nid yw effaith lawn pandemig y coronafeirws ar y gweithlu a'r asiantaethau cyflenwi yn glir eto**

- 3.20 Ataliwyd ysgolion yng Nghymru rhwng 20 Mawrth 2020 a 28 Mehefin 2020 o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Mae cau ysgolion wedi cael effaith sylweddol ar athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu, gan ddibynnu ar eu statws cyflogaeth. Dywedodd Llywodraeth Cymru yn glir ei bod yn disgwyl i ysgolion a chynghorau barchu gweddill y contractau ar gyfer staff cyflenwi a gyflogir. Gallai asiantaethau roi athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu cymwys ar ffyrlo trwy gynllun cymorth swyddi Llywodraeth y DU. Rhoddodd yr holl asiantaethau ar gontract y fframwaith y staff cymwys ar ffyrlo o leiaf tan ddechrau blwyddyn academaidd 2020-21.
- 3.21 Nid yw'r effaith hirdymor y pandemig ar y gweithlu cyflenwi yn hysbys hyd yn hyn; mae'n bosibl y bydd rhai yn dechrau gweithio mewn ysgolion yn rhan o'r fenter Recrwtio, Adfer a Chodi Safonau blwyddyn o hyd ac mae'n bosibl y bydd cyn-athrawon yn cael dychwelyd i wneud gwaith cyflenwi os ceir gostyngiad yn nifer y dewisiadau cyflogaeth eraill. Mae effaith y tarfu ar fusnes asiantaethau yn aneglur o hyd hefyd.

## **Bydd angen cryn dipyn o staff cyflenwi ar ysgolion i ryddhau athrawon i baratoi am y cwricwlwm newydd, ond rydym yn ansicr a oes digon o athrawon cyflenwi ar gael**

- 3.22 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i weithredu cwricwlwm newydd i Gymru o fis Medi 2022. Bydd angen staff cyflenwi ar ysgolion fel y gallant ryddhau athrawon ar gyfer hyfforddiant a gwaith datblygu cyn hynny. Ar sail profiad hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd angen gwerth £10.8 miliwn o staff cyflenwi ar ysgolion yn 2020-21 (mae'r amcangyfrifon yn amrywio o £5.4 miliwn i £16.1 miliwn)<sup>8</sup>.
- 3.23 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn amcangyfrif y bydd angen i ysgolion dalu costau gwerth £29.1 miliwn rhwng mis Medi 2021 a mis Gorffennaf 2026 (yn amrywio rhwng £14.5 miliwn a £43.6 miliwn). Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gallai'r amcangyfrifon hyn fod yn rhy isel oherwydd eu bod wedi'u seilio ar wybodaeth gan ysgolion 'arloesi' o gofio y bydd gan ysgolion eraill ragor o waith i'w wneud er mwyn paratoi i gyflwyno'r cwricwlwm ym mis Medi 2022.

---

8 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) – Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Llywodraeth Cymru, Medi 2020

3.24 Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd wrthi'n craffu ar gyllid ar gyfer Bil Cwricwlwm ac Asesu 2020. Fodd bynnag, nid ydym yn glir a all y gweithlu cyflenwi ateb y galw hwn, yn enwedig yn 2020-21. Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £29 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-21 er mwyn cefnogi disgyblion y mae pandemig y coronafeirws wedi tarfu ar eu haddysg. Mae canllawiau i benaethiaid a llywodraethwyr yn ei gwneud yn glir ei bod yn debygol y bydd rhai o'r staff i ddarparu cymorth yn dod o'r athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu presennol. Hefyd, mae'r galw am staff cyflenwi yn debygol o fod yn fwy nag arfer yn 2020-21 os bydd staff yn sâl neu'n hunanynysu gyda'r coronafeirws neu os bydd angen rhagor o staff oherwydd newidiadau yn y ffordd y caiff ysgolion eu trefnu (er enghraifft, er mwyn caniatáu 'swigod' o staff a disgyblion).

### **Mae costau yn rhwystr rhag cyflogi athrawon ychwanegol i wneud gwaith cyflenwi er eu bod yn cynnig buddion i ddysgwyr ac ysgolion**

3.25 Argymhellodd Tasglu Gweinidogol 2017 y dylid ymchwilio i ffyrdd newydd o gyflogi athrawon cyflenwi. Yn 2017, gwahoddodd Llywodraeth Cymru gynigion oddi wrth glystyrau o ysgolion er mwyn cyflogi athrawon newydd gymhwyso i weithredu fel athrawon ychwanegol gyda'r nod o ddarparu staff cyflenwi ar draws y clystyrau. Ar eu hanterth, ariannodd y cynlluniau treialu 48 o swyddi mewn 19 o glystyrau ysgolion, ac roedd pob un ohonynt yn rhydd i ddatblygu eu dull eu hunain o ddefnyddio'r athrawon. Cynhaliwyd y cynllun treialu am gyfnod o dair blynedd ac roedd cyllid grant o hyd at £2.4 miliwn ar gael ar gyfer blynyddoedd academaidd 2017-18 a 2018-19. Darparodd Llywodraeth Cymru 100% o'r costau ym mlwyddyn un a 75% ohonynt ym mlwyddyn dau. Y bwriad oedd y byddai'r cynlluniau treialu yn hunangyllidol yn 2019-20, gan adennill costau trwy wario llai ar staff cyflenwi allanol.

3.26 Canfu gwerthusiad interim ym mis Medi 2019 fod yr arweinwyr a'r disgyblion yn credu bod ansawdd yr addysg wedi gwella gyda'r athrawon ychwanegol. Roedd dysgwyr, yn enwedig y rhai a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol, yn elwa ar fwy o gysondeb. Defnyddiodd llawer o glystyrau athrawon ychwanegol i ryddhau staff ar gyfer gwaith strategol a datblygu fel darparu llythrennedd, ymchwil gweithredu, gwella prosesau cymedrol, systemau gwerthuso a monitro, cynllunio trefniadau pontio a dulliau rheoli ymddygiad. Dywedodd clystyrau y byddai hyn wedi cael ei wneud yn amser eu hunain yr athrawon fel arall, os o gwbl. Mantais arall oedd cefnogi athrawon ar ddechrau eu gyrfaoedd (**paragraff 2.11**).

3.27 Parhaodd pump o'r 19 clwstr i gyflogi staff addysgu ychwanegol pan ddaeth cyllid grant i ben. Nododd ysgolion mai cost cyflogi athrawon ychwanegol yn hytrach na chynorthwywyr addysgu lefel uwch neu athrawon cyflenwi dyddiol oedd y prif rwystr rhag parhau. Roedd athrawon ychwanegol yn cyflenwi bron i 30% o ddiwrnodau absenoldeb yr oedd angen darpariaeth gyflenwi ar eu cyfer, felly roedd yr arbedion oherwydd nad oedd angen cyflenwi absenoldeb yn talu rhwng 70% ac 83% o gostau'r cynllun treialu. Canfu adroddiad dilynol yn 2020 fod hanner y chwe chlwstr ysgol a ymatebodd wedi cyflwyno newidiadau yn y ffordd yr oeddent yn darparu gwasanaeth cyflenwi o ganlyniad i'r cynllun treialu, er enghraifft, darparu parhad i ddysgwyr trwy gyflogi cynorthwywyr addysgu lefel uwch ychwanegol ar gyfer gwasanaeth cyflenwi tymor byr. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym nad oes unrhyw gynlluniau i barhau i ariannu er bod gwersi a ddysgwyd o'r cynlluniau treialu wedi dylanwadu ar ddatblygiad eu menter 'Recrwtio, Adfer a Chodi Safonau' 2020-21.

### **Mae'r anhawster o ran dod o hyd i staff cyflenwi ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg yn debygol o barhau**

3.28 Mae rhai ysgolion yn ei chael yn anodd dod o hyd i ddarpariaeth cyflenwi. Yn 2013, canfu Estyn fod rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion mewn ardaloedd gwledig neu ddifreintiedig yn ei chael yn anodd dod o hyd i ddarpariaeth gyflenwi. Cafodd mwyafrif yr ysgolion uwchradd anhawster yn cyflogi athrawon cyflenwi ar gyfer mathemateg neu ffiseg. Yn 2017, canfu Estyn fod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ei chael yn anodd dod o hyd i athrawon cyflenwi yn aml. Weithiau, byddant yn colli ansawdd er mwyn defnyddio staff â sgiliau Cymraeg. Dywedodd swyddogion y Cyngor wrthym yn gynnar yn 2020 fod dod o hyd i staff cyflenwi ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg yn anodd: mae rhai cynghorau'n cadw rhestrau canolog o athrawon Cymraeg cymwysedig er mwyn helpu eu hysgolion i ddod o hyd i athrawon cyflenwi.



3.29 Mae'r anawsterau hyn yn adlewyrchu prinder mwy cyffredinol o athrawon cyfrwng Cymraeg ac athrawon ar gyfer rhai pynciau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cymhellion ariannol a champau eraill i annog graddedigion i hyfforddi mewn meysydd lle ceir prinder, ond hyd nes y bydd nifer yr athrawon cymwysedig yn cynyddu, bydd prinder yn parhau:

- **athrawon cyfrwng Cymraeg** – o dan raglen [Cymraeg 2050](#), mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau i'w hun i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n dechrau'r proffesiwn addysgu erbyn 2050, gyda cherrig milltir ar gyfer 2021 a 2031. Yn ogystal â grantiau hyfforddi, mae'n ariannu cyrsiau iaith ac yn cynllunio rhaglen sabothol ar gyfer athrawon, cynorthwywyr addysgu ac athrawon cyflenwi. Fodd bynnag, mae heriau o ran bodloni'r niferoedd sy'n ofynnol ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, yn enwedig ar gyfer ysgolion uwchradd lle bu nifer yr athrawon dan hyfforddiant yn is na'r nifer gofynnol am bum mlynedd yn olynol.
- **pynciau lle ceir prinder** – mae Llywodraeth Cymru yn cynnig grantiau hyfforddi er mwyn annog graddedigion i hyfforddi i fod yn athrawon yng Nghymru. Yn y flwyddyn academaidd 2019-20, roedd grantiau rhwng £3,000 ac £20,000 ar gael yn dibynnu ar y pwnc a chymwysterau blaenorol. Roedd y grantiau uchaf ar gael i bobl â gradd dosbarth cyntaf, doethuriaeth neu radd feistr, a oedd yn ymgymryd â chysiau hyfforddi athrawon uwchradd ôl-raddedig mewn mathemateg, ffiseg, cemeg, Cymraeg neu gyfrifiadureg. Er hynny, roedd nifer yr athrawon ysgolion uwchradd newydd dan hyfforddiant 44% yn is na'r nifer a ddymunwyd yn 2018-19. Roedd nifer yr hyfforddeion ysgol gynradd newydd yn llai na'r hyn a ddymunwyd am bedwaredd flwyddyn<sup>9</sup>.

---

9 [Ystadegau ar gyfer Cymru Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru, 2018/19, SB 19/2020, 25 Mehefin 2020](#). Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys llwybrau eraill, fel y Rhaglen Athrawon Graddedig a Teach First.



# Atodiadau

---

- 1 Ein dulliau archwilio
- 2 Datblygiadau allweddol  
ers 2013
- 3 Y contract cenedlaethol ar gyfer  
staff asiantaeth mewn addysg

# 1 Ein dulliau archwilio

- 1 Yn 2013, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad yn trafod y trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon yn seiliedig ar waith a wnaed gennym yn 2012 gyda chydweithwyr o Estyn, sef arolygiaeth ysgolion Cymru.
- 2 Ers 2013, bu adroddiadau perthnasol eraill gan y Senedd [Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd] a gan Estyn. Hefyd, adroddodd 'Tasglu Modelau Cyflenwi' i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg [ar y pryd] yn 2017. Gwnaeth pob un ohonynt argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol neu ysgolion.
- 3 Yn 2019-20, fe wnaethom ddychwelyd at y pwnc hwn er mwyn archwilio cynnydd o ran bodloni'r argymhellion ac asesu unrhyw welliannau o ran rheoli absenoldeb athrawon. Fe wnaethom hyn drwy:
  - a adolygu dogfennau.
  - b cyfweld â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.
  - c cyfweld â rhanddeiliaid gan gynnwys Estyn, Cyngor Gweithlu Addysg Cymru a chynrychiolwyr 'Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi'.
  - ch adolygu dogfennau tendro y contract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg a data perfformiad cychwynnol a chyllid.
- 4 Gwahoddodd ein hymarfer ymgynghori ym mis Ionawr a mis Chwefror 2020 wybodaeth gan ysgolion, athrawon, athrawon cyflenwi, undebau athrawon a chynghorau. Cysylltodd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ag asiantaethau ar y fframwaith ar ein rhan a'u gwahodd i gyfrannu tystiolaeth. Cawsom 105 o ymatebion oddi wrth 39 o athrawon cyflenwi, 33 o athrawon, 13 o benaethiaid/ llywodraethwyr/rheolwyr busnes ysgolion, 13 o rieni, 3 asiantaeth a 4 arall.
- 5 Ni wnaethom waith maes mewn ysgolion yn rhan o'r gwaith dilynol hwn. Fe wnaethom gysylltu â phob ysgol a oedd yn rhan o'n gwaith blaenorol i'w gwahodd i gymryd rhan yn ein hymgyngoriad.
- 6 Ni wnaethom gysylltu â chynghorau unigol. Fe wnaethom siarad â chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac aelodau o gyngor panel cyfeirio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol sy'n ymwneud â chaffael a monitro'r contract cenedlaethol.

## Y prif ddogfennau cyfeirio

[Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon, Medi 2013](#)

[Estyn, Effaith Absenoldeb Athrawon, Medi 2013](#)

[Cynulliad Cenedlaethol Cymru Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon, Mai 2014](#)

[Cynulliad Cenedlaethol Cymru Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi, Rhagfyr 2015](#)

[Llywodraeth Cymru, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, Dogfen ganllawiau: rhif 158/2015, Ionawr 2015](#)

[Llywodraeth Cymru, Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol, Dogfen ganllawiau<sup>10</sup>, Gorffennaf 2015](#)

[Llywodraeth Cymru, Cyflogi a chefnogi athrawon cyflenwi mewn amgylchedd ysgol, Ebrill 2016](#)

[Estyn, Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol mewn ysgolion cynradd, Ionawr 2017](#)

[Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg \(Cymru\), Arolwg o'r Gweithlu Addysg, Ebrill 2017](#)

[Llywodraeth Cymru, Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol, Dogfen ganllawiau: rhif 217/2017, Gorffennaf 2017](#)

[Llywodraeth Cymru, Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl Cynllun gweithredu 2017-21, Medi 2017](#)

[Llywodraeth Cymru, Tasglu Gweinidogol ar gyfer Modelau Cyflenwi: Adroddiad i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Hydref 2017](#)

[Duggan, B., Glover, A., Grover, T. a Feehan, A. \(Ymchwil Arad\), Gwerthusiad o'r Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion, Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 50/2019](#)

[Llywodraeth Cymru, Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol \(Cymru\) 2019 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol, Medi 2019 \(i'w diweddarau'n fuan\)](#)

[Llywodraeth Cymru, Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol, Dogfen ganllawiau: rhif 258/2020, Chwefror 2020](#)

[Duggan, B., Glover, A., a Grover, T. \(Ymchwil Arad\), Gwerthusiad o'r Prosiect Clwstwr Cyflenwi mewn Ysgolion: Adroddiad dilynol, Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 45/2020 Gorffennaf 2020](#)

---

10 Nid oeddem yn gallu dod o hyd i fersiwn Gymraeg o'r adroddiad hwn ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 2 Datblygiadau allweddol ers 2013

- 1 Ers 2013, mae Llywodraeth Cymru ac eraill wedi cymryd camau sydd wedi effeithio ar reoli presenoldeb y gweithlu gan ysgolion a chyflog ac amodau staff cyflenwi (**Arddangosyn 5**).

### Arddangosyn 5: datblygiadau allweddol sy'n berthnasol o ran rheoli presenoldeb y gweithlu mewn ysgolion, 2014-2020

Mawrth 2014	'Y fargen newydd ar gyfer y gweithlu addysg' gan Lywodraeth Cymru yn amlinellu safonau hyfforddiant proffesiynol ar gyfer athrawon gan gynnwys ar gyfer athrawon cyflenwi.
Ionawr 2015	Canllawiau 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' Llywodraeth Cymru yn cynnwys adran ar staff dros dro, gan ei gwneud yn glir y dylai ysgolion gymhwyso'r un gwiriadau ar staff dros dro â staff parhaol.
Ebrill 2015	Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn dyfarnu contract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg i New Directions Education Ltd.
Gorffennaf 2015	Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau ar reoli presenoldeb gweithlu ysgolion.
Ebrill 2016	Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau ar gyflogi a chefnogi athrawon cyflenwi.
Ebrill 2016	Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod adnoddau dysgu a datblygu ar gael i athrawon cyflenwi.
Mai 2016	Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi Tasglu Modelau Cyflenwi i ystyried dewisiadau darparu yn y dyfodol gyda chynrychiolwyr addysg, cynghorau, busnes ac undebau llafur.
Gorffennaf 2016	Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ystadegau absenoldeb oherwydd salwch blynyddol fesul cyngor am y tro cyntaf, ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2015.
Ebrill 2017	Arolwg o'r Gweithlu Addysg yn rhoi gwybodaeth am brofiad athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu.

Medi 2017	Y safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon a gweithwyr cymorth dysgu yn dod i rym.
Hydref 2017	Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi cynlluniau treialu cyflogaeth modelau cyflenwi tair blynedd mewn 15 cyngor ledled Cymru.
Rhagfyr 2017	Llywodraeth Cymru'n diweddarau canllawiau ar reoli presenoldeb gweithlu ysgolion.
Mai 2018	Pwyllgor Deisebau'r Senedd yn lansio ymchwiliad mewn ymateb i ddeiseb <a href="#">Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi</a> .
Gorffennaf 2019	Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn dyfarnu'r contract diweddaraf ar gyfer cyflogi staff asiantaeth mewn addysg, i redeg am 3 blynedd o 1 Medi 2019.
Tachwedd 2019	Cyhoeddi'r gwerthusiad interim o gynlluniau treialu cyflogaeth modelau cyflenwi.
Chwefror 2020	Llywodraeth Cymru'n diweddarau canllawiau ar reoli presenoldeb gweithlu ysgolion, gan gynnwys manylion am y contract cenedlaethol newydd.
Mawrth 2020	Datganiad Llywodraeth Cymru ynghylch staff dros dro yr effeithiodd y penderfyniad i gau ysgolion yn ystod pandemig y coronafeirws arnynt.
Gorffennaf 2020	Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi cyllid i gefnogi dysgwyr y mae pandemig y coronafeirws wedi tarfu ar eu haddysg – caniateir darparu cymorth gan y gweithlu cyflenwi ac athrawon newydd gymhwyso.
Gorffennaf 2020	Adroddiad dilynol am y cynlluniau treialu cyflogaeth modelau cyflenwi a gyhoeddwyd.

## 3 Y contract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg

### Contractau cenedlaethol 2012-2019

- 1 Ar ran Consortiwm Prynu Cymru [ar y pryd], gwahoddodd Cyngor Caerdydd gynigion am weithwyr asiantaeth ar gyfer swyddogaethau awdurdodau lleol, gan gynnwys ysgolion. Dyfarnwyd contractau fframwaith ar gyfer y Gogledd a'r De yn cwmpasu 16 o gynghorau i New Directions Education Ltd yn 2012. Dywedodd ein hadroddiad yn 2013 fod y broses dendro wedi colli cyfleoedd i gynnwys elfennau o'r Marc Ansawdd blaenorol ar gyfer asiantaethau neu i'w gwneud yn ofynnol i athrawon ddilyn hyfforddiant ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel llythrennedd a rhifedd.
- 2 Yn 2014, cymerodd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol – sy'n adran o Lywodraeth Cymru – gyfrifoldeb am y contract. Roedd y ddogfen dendro am gontract newydd yn cynnwys gofynion yn adlewyrchu rhai materion a godwyd yn ein hadroddiad blaenorol, gan Estyn a gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Roedd yn ofynnol i gynigwyr gynnig hyfforddiant am ddim neu am gost isel i athrawon cyflenwi ac roedd costau asiantaeth yn glir wrth i gynigwyr nodi uchafswm ffi ddyddiol, gan leihau dros gyfnod y contract.
- 3 Yn 2015, dyfarnodd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol y contract am un contract cenedlaethol i New Directions Education Ltd. Rhedai'r contract o fis Medi 2015, am dair blynedd i ddechrau ond yna fe'i hestynnwyd tan fis Gorffennaf 2019. Fe wnaeth gwariant ar staff asiantaethau ysgolion trwy'r trefniadau contractio cenedlaethol fwy na threblu yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn rhannol, roedd hyn o ganlyniad i ysgolion mewn rhagor o ardaloedd cynghorau yn ei ddefnyddio (i fyny o 8 cyngor i 20). Fodd bynnag, bu bron i'r gwariant ddyblu yn ystod y pedair blynedd mewn cynghorau a'i defnyddiodd yn 2015-16 (**Arddangosyn 6**).

**Arddangosyn 6: gwariant ar staff asiantaeth mewn addysg o dan y contract cenedlaethol fesul cyngor, 2015-16 hyd 2018-19 (blynyddoedd ariannol)<sup>1</sup>**

	2015-16 <sup>2</sup> £ miliynau	2016-17 £ miliynau	2017-18 £ miliynau	2018-19 £ miliynau
<b>Cymru</b>	<b>6.920</b>	<b>16.669</b>	<b>19.787</b>	<b>25.382</b>
Blaenau Gwent	0.312	0.244	0.382	0.914
Pen-y-bont ar Ogwr	0.219	0.407	0.817	1.238
Caerffili	3.286	0.297	0.001	0.299
Caerdydd	1.855	2.955	3.237	3.406
Sir Gaerfyrddin	0.083	0.826	0.957	1.753
Ceredigion	0.284	0.583	0.878	0.846
Abertawe	-	1.349	1.523	1.824
Conwy	-	0.016	0.001	0.027
Sir Ddinbych	0.544	0.873	1.295	1.867
Sir y Fflint	0.336	1.021	1.097	1.419
Gwynedd	-	0.001	0.002	-
Ynys Môn	-	-	-	-
Merthyr Tudful	-	1.375	1.666	2.028
Sir Fynwy	-	0.628	0.646	0.745
Castell-nedd Port Talbot	-	0.405	0.361	0.851
Casnewydd	-	1.198	1.171	0.890
Sir Benfro	-	0.238	0.282	0.251
Powys	-	0.209	0.528	0.841
Rhondda Cynon Taf	-	1.419	1.915	2.623
Bro Morgannwg	-	0.773	0.961	1.035
Torfaen	-	0.443	0.437	0.659
Wrecsam	-	1.411	1.629	1.864

**Sylwer:**

- 1 Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys gwariant gan ysgolion a gan gynghorau yn uniongyrchol, er enghraifft ar staff cyflenwi ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion a disgyblion sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol.
- 2 Dechreuodd y contract ym mis Medi 2015. At ddibenion cymharu, addesir y ffigurau ar gyfer 2015-16 dros gyfnod o 12 mis.


Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, 2020 (heb ei gyhoeddi)



## Contract cenedlaethol 2019-2022

- 4 Gweithiodd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gyda chynghorau i ddatblygu trydedd fersiwn o'r contract cenedlaethol sy'n mynd i'r afael â'u gofynion yn ogystal ag argymhellion Tasglu Gweinidogol 2017 a phryderon grwpiau llobio, undebau ac eraill. Dyfarnwyd y contract ym mis Gorffennaf 2019 ac mae'n rhedeg am dair blynedd o fis Medi 2019.
- 5 Gwariodd ysgolion a chynghorau £41.1 miliwn drwy'r contract rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020. Yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020, roedd o leiaf 89% o hyn ar athrawon cyflenwi a gwasanaethau cyflenwi eraill yn yr ystafell ddosbarth (**Arddangosyn 7**).

### Arddangosyn 7: y contract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg, gwariant Hydref 2019 – Mawrth 2020



#### Nodiadau:

- 1 Nid yw data'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer mis Medi 2019 yn dangos categorïau'r staff.
- 2 Mae 'eraill' yn cynnwys data gan dair asiantaeth na chafodd eu dadansoddi fesul categori staff yn ogystal â staff nad ydynt yn yr ystafell ddosbarth (er enghraifft gofalywyr, staff gweinyddol neu staff arlwyo).

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, Medi 2020

- 6 Mae **Arddangosyn 8** yn dangos ein safbwynt o ran sut y mae'r contract terfynol yn mynd i'r afael â'r pryderon a'r argymhellion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol. Mae **paragraffau 3.10 i 3.19** yn trafod y gyfradd gyflog isaf ar gyfer athrawon cyflenwi.

## Arddangosyn 8: Sylwadau Archwilio Cymru ynglŷn â'r contract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg, Medi 2019 - Gorffennaf 2022

### Cynyddu nifer yr asiantaethau ar y fframwaith

Disodlodd contract 2019 fframwaith Cymru gyfan a oedd ag un asiantaeth â contract yn cynnwys 22 o barthau daearyddol bob un yn cwmpasu ardal cyngor. Mae dwy o'r 27 o asiantaethau a lwyddodd i ddechrau wedi gadael y fframwaith. Mae nifer yr asiantaethau ar bob fframwaith yn amrywio rhwng 5 a 21, gan roi rhywfaint o ddewis i ysgolion ym mhob parth. Dywedodd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wrthym eu bod yn amcangyfrif bod yr asiantaethau ar y fframwaith i ddechrau wedi darparu oddeutu 90% o'r diwrnodau cyflenwi yn flaenorol.

### Safonau ansawdd ar gyfer asiantaethau

Rhoddodd Llywodraeth Cymru y gorau i ddefnyddio Marc Ansawdd ar gyfer asiantaethau cyflenwi yn 2010. Bryd hynny, dim ond wyth asiantaeth oedd wedi cofrestru ar ei gyfer. Yn 2017, argymhellodd y Tasglu Gweinidogol y dylid pennu meini prawf gofynnol ar gyfer asiantaethau sy'n darparu staff i ysgolion a gynhelir.

Mae'r contract yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau gael eu hachredu gan un o dri chorff penodol yn y diwydiant recriwtio yn y DU. Mae achredu'n cwmpasu rheolau busnes a chyflogi cyffredinol, cyflwyno a diogelu data. Roedd rhai asiantaethau eisoes wedi eu hachredu, ond bydd y gofyniad hwn yn cynyddu nifer yr asiantaethau achrededig yng Nghymru. Mae achredu yn ychwanegol at reoleiddio gan Arolygiaeth Safonau Asiantaethau Cyflogaeth Llywodraeth y DU sy'n gorfodi'r gyfraith ac yn sicrhau bod pob asiantaeth recriwtio yn cydymffurfio â hi.

Mae'r contract yn cynnwys targedau perfformiad ar gyfer asiantaethau hefyd, a adroddir bob chwarter. Yn gyffredinol, mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi wynebu galwadau ychwanegol sylweddol o reoli hyd at 27 o asiantaethau yn hytrach na'r un flaenorol. Nid yw swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd bellach â chynrychiolwyr asiantaethau ar y fframwaith, ond byddant yn codi materion gydag asiantaethau unigol fel eithriad. Trafodir datblygiadau ehangach drwy rwydwaith cyflenwyr. Croesawodd swyddogion Adnoddau Dynol a chaffael y Cyngor y dewis ehangach o asiantaethau, ond roeddent yn cytuno bod cydberthnasau yn fwy pell nag o'r blaen.

## Hyfforddiant i staff asiantaeth

Argymhellodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn 2015 y dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyfforddiant gorfodol i athrawon cyflenwi. Roedd y Gweinidog ar y pryd o blaid system wirfoddol. Mae'r contract yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau gynnig hyfforddiant sylfaenol am ddim i athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu mewn diogelu, codi a chario, cymorth cyntaf a rheoli ymddygiad. Nid yw'n ofynnol bod asiantaethau ar y fframwaith yn talu staff i ddilyn hyfforddiant, ond fe'u hanogir i gynnig deunyddiau a digwyddiadau ar-lein y tu allan i oriau ysgol. Mae hyn yr un fath ag oedd yn ofynnol yn ôl contract 2015-2019, ond bydd ar gael yn ehangach. Mae'r contract yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i asiantaethau ystyried anghenion hyfforddi ehangach athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu, gan gynnwys hyfforddiant i gefnogi'r newidiadau addysg sydd ar y gweill a amlinellir yn 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'.

## Rheoli perfformiad ar gyfer staff asiantaeth

Mae athrawon cyflenwi a gyflogir am fwy na thymor yn ddarostyngedig i drefniadau rheoli perfformiad yr ysgolion. Argymhellir rheoli perfformiad ar gyfer gweithwyr cymorth dysgu, ond nid yw hynny'n orfodol.

Mae'r contract yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau gasglu sylwadau am berfformiad oddi wrth ysgolion a darparu hyn i unigolion. Roedd hyn yn ofynnol o dan drefniadau blaenorol, ond bellach mae'n berthnasol i ragor o asiantaethau. Mae effeithiolrwydd posibl sylwadau i helpu asiantaethau i reoli perfformiad a bod yn ymwybodol o broblemau yn dibynnu ar geisio'n weithredol i gael gwybodaeth o ansawdd uchel – a'i derbyn – oddi wrth ysgolion.

## Diogelu

Mae'r contract yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau gynnal yr un camau cyn cyflogi ag y byddai ysgolion yn ei wneud wrth gyflogi'n uniongyrchol cyn i unrhyw unigolyn wneud unrhyw waith mewn ysgol. Mae hyn yn cynnwys tystlythyrau, gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a sicrhau ei fod wedi ei gofrestru gyda Chyngor Gweithlu Addysg Cymru. Unwaith eto, roedd hyn yn ofyniad yng nghontract 2015-2019 hefyd, ond mae'r trefniadau newydd yn ei gwneud yn berthnasol yn ehangach. Cawsom dystiolaeth nad yw'n ymddangos bod rhai asiantaethau'n gwneud yr holl gamau gwirio cyn cyflogi hyn (paragraffau 2.13 i 2.15), ond nid oedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn nodi a oedd yr honiad yn cyfeirio at unrhyw asiantaeth ar y fframwaith nac yn caniatáu i ni ymchwilio i achosion penodol.

## Tryloywder ffioedd asiantaeth (cyfraddau dyddiol a ffioedd cyflwyno)

Mae'r ffioedd uchel a godir gan asiantaethau wedi denu sylw, gan gynnwys sylw Tasglu Gweinidogol 2017. Roedd contract 2015-2019 wedi pennu graddfa ffioedd ar gyfer deiliad y contract. Nid oedd unrhyw derfyn ar y ffioedd a godwyd gan asiantaethau eraill. Wrth wneud cais i fod ar y fframwaith, gofynnwyd i asiantaethau nodi uchafswm y ffi ddyddiol a fyddai'n cael ei chodi ar ben costau cyflog a chyflogaeth; roeddent yn cael dewis codi llai, ond roedd yn rhaid i'r ysgol allu gweld y ffi yn glir. Dywedodd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wrthym fod uchafswm y ffioedd yn amrywio rhwng £15 a £50 y diwrnod. Mae'r tryloywder hwn yn ei gwneud yn haws i ysgolion ystyried cost ffioedd wrth benderfynu pa asiantaeth i'w defnyddio.

Mae ysgolion yn talu ffi gyflwyno os ydynt yn cyflogi staff o leoliad asiantaeth. Mae hyn yn digolledu'r asiantaeth am golli ffioedd dyddiol, ond mae'r Tasglu Gweinidogol yn credu y gallai ffioedd fod yn anghymesur. O dan contract 2019, nid yw ysgolion yn talu ffi gyflwyno os bydd y gweithiwr asiantaeth yn gyflogai ar ôl 12 wythnos. Cyn 12 wythnos, pennir y ffi gyflwyno yn ôl graddfa symudol.

## Defnydd asiantaethau o gwmnïau ymbarél<sup>1</sup>

Beirniadodd Tasglu Gweinidogol 2017 ddefnydd asiantaethau o gwmnïau ymbarél, yn enwedig y rhai oedd wedi eu cofrestru y tu allan i'r DU er mwyn manteisio ar gyfundrefnau trethiant mwy ffafriol. Mae contract 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau ar y fframwaith ddarparu tystiolaeth o gyflwyno adroddiadau chwarterol CThEM pan ddefnyddir cwmnïau ymbarél yn lle'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd bod yr asiantaethau'n cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol mewn cysylltiad â'u trefniadau. Dim ond cwmnïau ymbarél sydd wedi eu cofrestru yn y DU y caiff asiantaethau eu defnyddio.

## Sicrhau cydymffurfedd â Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010

Mae Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010 yn rhoi i weithwyr yr un telerau ac amodau ag sydd gan staff parhaol ar ôl 12 wythnos mewn lleoliad. Defnyddiodd llawer o asiantaethau 'Rhanddirymiad Sweden', sef trefniant cyfreithlon lle mae gweithwyr yn ildio eu hawl i gyflog cydradd am o leiaf 50% o gyflog rhwng aseiniadau. Roedd hyn wedi denu beirniadaeth gan Dasglu Gweinidogol 2017 yn ogystal ag adolygiad Taylor 20172. Mae Llywodraeth y DU wedi gwahardd ei ddefnydd o fis Ebrill 2020 ymlaen. Roedd contract 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau ar y fframwaith beidio â defnyddio Rhanddirymiad Sweden o'r dyddiad cynharach ym mis Medi 2019.

Mae'r newid hwn o fudd i athrawon cyflenwi asiantaeth a gweithwyr cymorth dysgu sy'n gwneud gwaith mewn lleoliad am fwy na 12 wythnos o hyd (neu 12 wythnos ar wahân dros gyfnod). Gallai gynyddu costau i ysgolion. O ystyried y tarfu ar ysgolion yn 2020, mae'n rhy gynnar i weld a yw ysgolion wedi'u cymell i ddod â lleoliadau cyflenwi i ben cyn 12 wythnos a/neu i osgoi cyflogi athrawon mwy profiadol – a mwy drud.

Clywsom dystiolaeth anecdotaidd nad yw rhai ysgolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth ac felly maent yn wynebu biliau annisgwyl am athrawon cyflenwi a allai hawlio cyflog uwch ar ôl 12 wythnos. Heb dystiolaeth o achosion unigol, ni wyddom a yw hyn yn digwydd, na pha mor aml y mae hyn yn digwydd. Mae contract 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau ddweud wrth ysgolion cyn cychwyn y cyfnod cymhwyso.

### Nodiadau:

- 1 Mae cwmnïau ymbarél yn cyflogi contractwyr asiantaeth sy'n cael aseiniadau dros dro drwy asiantaeth recriwtio. Mae'r model cyflogaeth hwn yn gyffredin yn y diwydiant recriwtio gan fod rhwymedigaethau asiantaeth yn lleihau a gallai fod buddion i weithwyr asiantaeth. Bydd y cwmni'n talu'r contractwr drwy gynllun Talu Wrth Ennill, gan wrthbwysu treuliau priodol. Bydd yn anfonebu'r asiantaeth am y staff.
- 2 Taylor M, Marsh, G., Nicol, D a Broadbent, P., **Good Work: The Taylor review of modern working practices**, Gorffennaf 2019

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Cardiff  
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a  
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)